

**Cofnodion cyfarfod rhif 84**  
**Pwyllgor Cyngori Cymru**  
**a gynhaliwyd drwy Microsoft Teams/rhai wyneb yn wyneb ar 22**  
**Mawrth 2022**

**Yn bresennol**

Hywel Wiliam	Y Cadeirydd
Robert Andrews	Aelod
Aled Eirug	Aelod
Tom Crick	Aelod
Angharad Evans	Aelod (ymunodd yn eitem 5)
Rem Noormohamed	Aelod (ymunodd yn eitem 8)

**Hefyd yn bresennol**

David Jones	Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom
Ruth McElroy	Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys
Eleanor Marks	Cyfarwyddwr, Ofcom Cymru
Elinor Williams	Pennaeth Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom
Meleri Evans	Rheolwr Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom
Liz Nash	Rheolwr Tîm, Ofcom Cymru

Cydweithwyr eraill yn Ofcom

**Ymddiheuriadau**

Sian Phipps	Aelod ar ran Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau
-------------	---

<b>Eitemau ar yr Agenda</b>	<b>Gweith redu</b>
<p><b>1. Cyflwyniad</b></p> <p>Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod rhif 84 Pwyllgor Cyngori Cymru (PCC). Fe wnaeth longyfarch yr Athro Ruth McElroy ar ei phenodiad fel Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys a'i rôl newydd fel Pennaeth Ysgol y Celfyddydau ac Ieithoedd ym Mhrifysgol Bangor. Nododd y Cadeirydd fod Aled Eirug yn ymuno â'r pwyllgor fel aelod a diolchodd iddo am ei waith fel Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys.</p> <p>Derbyniwyd ymddiheuriadau ymlaen llaw gan Sian Phipps.</p>	
<p><b>2. Datgan Buddiannau Aelodau – ar lafar</b></p> <p>Tom Crick – Coleg Arbenigwyr; Prifysgol Abertawe</p> <p>Angharad Evans (ymunodd yn eitem 5) Nododd yr aelod fod S4C yn un o'i chleientiaid yn ogystal â BBC Studios (adran Hanes Naturiol – nid ar gyfer yr adain gwasanaeth cyhoeddus) – nododd y bydd angen iddi esgusodi ei hun rhag trafodaethau cysylltiedig.</p> <p>Nododd Eleanor Marks y bydd hi'n gweithio wythnos pedwar diwrnod o ganol mis Mawrth tan yr Hydref.</p>	

### 3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2021 a materion yn codi

Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2021 wedi cael eu dosbarthu i'r aelodau ymlaen llaw. **CYMERADWYFYD** y cofnodion yn dilyn newid un dyddiad i ddydd Mawrth 13 Medi, fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

#### Materion yn codi/Campau gweithredu heb eu cyflawni -

- Sgwâr Canolog y BBC – bydd yr ymweliad yn cael ei aildrefnu ar gyfer pob parti.
- Adroddiad Newyddion Rhwydwaith – cyhoeddwyd 22 Chwefror. Sylw gwell i faterion datganoledig ers y dadansoddiad diwethaf. Gofynnodd un aelod sut mae Ofcom yn bwriadu bwrw ymlaen â chanfyddiadau'r adroddiad? Gofynnodd un aelod arall beth mae'r canfyddiadau'n ei olygu i gynulleidfaoedd yng Nghymru? Cytunwyd y byddem yn trefnu sesiwn ar wahân i'r Athro Stephen Cushion drafod canfyddiadau'r adroddiad. Nodwyd bod yr adroddiad wedi cael sylw helaeth yn y cyfryngau yng Nghymru a'i fod wedi cael ei ddsbarthu i Aelodau Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol Senedd Cymru.
- Yr wybodaeth ddiweddaraf ar Deledu Lleol – Mae Local TV Limited wedi gwneud cais i Ofcom newid yr ymrwymadau rhaglenni mewn saith o'i drwyddedau, gan gynnwys Cardiff TV.
- Strategaeth Galwadau Symudol – bydd trafodaeth bellach yn cael ei threfnu ar gyfer y pwyllgor yn ddiweddarach ym mis Ebrill/Mai
- Bil Diogelwch Ar-lein – gofynnwyd am yr wybodaeth ddiweddaraf, ac eglurwyd bod hyn yn cael sylw ar hyn o bryd yng ngwybodaeth ddiweddaraf y Polisi Cyhoeddus.

#### Adroddiad y Cadeirydd

4. Rhoddodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf ar lafar o'i weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys mynychu:

- Cyfarfod gyda Melanie Dawes ynghyd â Chadeiryddion eraill y pwyllgor.
- Ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Gwaith – cyflwyno ymateb y pwyllgor i'r tîm Cynllun Gwaith
- Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau (MSOM) – seminar ar-lein ar ddull Ofcom o ymdrin â Llythrennedd yn y Cyfryngau yn y dyfodol
- Hyb Defnyddwyr Cyfathrebiadau Cymru – cyflwyniad gan y Post Brenhinol, trafodaeth ar Symud i Brotocol Llais dros y Rhyngwyrdd (VoIP)
- Ymweliad syfrdanol â'r safle i gwrdd â'r tîm o Ogi yn y Fenni.

#### 5. Y Diweddaraf: Aelod Cymru o Fwrdd Cynnwys Ofcom

Roedd Aelod Cymru o'r Bwrdd Cynnwys eisoes wedi dosbarthu papur diweddarau. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

- Stiwdios y BBC – trefnu cyflwyniad gan y tîm ym Mhorth y Rhath.
- Sefydliad Materion Cymreig – adroddiad ar ddemocratiaeth ymchwil – awgrymwyd y dylai Pwyllgor Cynghori Cymru ymgysylltu â'r adroddiad

#### 6. Y Diweddaraf gan y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau

Roedd Aelod Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau eisoes wedi dosbarthu adroddiad diweddarau ar weithgareddau'r Panel ers y cyfarfod diwethaf. Yn ei habsenoldeb,

<p>diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod dros Gymru o'r Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu am ei phapur.</p>	
<p><b>7. Adroddiad – Datblygiadau Diweddar yng Nghymru</b></p> <p>Nododd yr aelodau gynnwys papur diweddarau a rannwyd yn flaenorol ac a oedd yn ymdrin â phynciau'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfarfodydd gyda Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru a'r Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon.</li> <li>• Ymgysylltu â rhanddeiliaid – cyfarfod â Chyngor Cyfathrebu Cymru, ymweliad safle ag Ogi i weld defnyddio ffeibr llawn yn y Fenni, y digwyddiad Cynllun Gwaith a digwyddiad bwrdd crwn Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelwch Ar-lein.</li> <li>• Cytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Heddlu De Cymru yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno gyda'r Heddlu Metropolitaidd mewn perthynas â'n gwaith ar gynnwys anghyfreithlon.</li> </ul>	
<p><b>8. Y Diweddaraf: Aelod Bwrdd Ofcom ar ran Cymru</b></p> <p>Cadeirydd Ofcom – proses yn dod i ben a bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud cyn bo hir.</p> <p>Aelod Bwrdd ar ran Gogledd Iwerddon – proses wedi'i chwblhau</p> <p>Aelod o'r Bwrdd a Chadeirydd y Bwrdd Cynnwys – proses recriwtio bron â chael ei chwblhau.</p> <p>RT – roedd 29 achos yn cael eu hymchwilio ac mae'r broses hon yn parhau. Ofcom.</p>	
<p><b>9. Yr wybodaeth ddiweddaraf – Symud i VoiP</b></p> <p>Croesawodd y Cadeirydd y tîm i'r cyfarfod. Rhoddodd y tîm y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, gan atgoffa'r Aelodau bod symud i VoiP yn benderfyniad a wnaed gan y diwydiant ac y byddai'r broses yn cael ei chwblhau erbyn 2025. Roedd gan Ofcom rôl i sicrhau bod defnyddwyr agored i niwed yn cael eu diogelu, a bod pobl yn gallu parhau i gysylltu â'r gwasanaethau brys yn ystod toriad yn y pŵer. Nodwyd bod y broses o symud wedi cyflymu yn ystod yr wythnosau diwethaf a bod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r sector Seilwaith Cenedlaethol Hanfodol i sicrhau ei fod wedi'i baratoi'n briodol.</p> <p>Cododd Aelodau'r Pwyllgor fater cyfathrebu'r broses gyda'r cyhoedd a sefydliadau sy'n dibynnu ar linellau copr, gan gymharu â'r dulliau torfol a ddefnyddiwyd yn ystod y newid i'r digidol o deledu analog. Dywedodd rhai cydweithwyr hefyd y byddai Ofcom Cymru yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau i ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan ddechrau gyda chynrychiolwyr o'r sector iechyd cyn bo hir.</p>	
<p><b>10. Yr wybodaeth ddiweddaraf - Treialu trwyddedau DAB graddfa fach</b></p> <p>Rhoddodd rhai cydweithwyr yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y broses drwyddedu DAB ar raddfa fach.</p> <p>Canmolodd Aelodau'r Pwyllgor yr uchelgais a ddangoswyd gan Ofcom wrth agor pedair rownd o drwyddedu i gyd ar gyfer DAB ar Raddfa Fach, gan ychwanegu ei fod yn ddewis amgen da i DAB ac FM a gallai ddarparu plattform i sianeli newydd lansio, gan gynnwys y rheini y Gymraeg. Atgoffodd y tîm y Pwyllgor fod posibiliadau eraill hefyd ar gyfer gorsafedd analog, gan nodi bod Radio Cardiff wedi gwneud cais llwyddiannus am</p>	

<p>drwydded CDSP ar gyfer gwasanaethau cymunedol lleol ar gapasiti sydd wedi'i neilltuo ar amblecs Caerdydd.</p>	
<p><b>11. Yr wybodaeth ddiweddaraf – Polisi Cyhoeddus</b></p> <p>Rhoddodd cydweithwyr o'r tîm Polisi Cyhoeddus y newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor. Nododd y tîm fod y Bil Diogelwch Ar-lein wedi cael ei gyflwyno i'r Senedd a'i fod yn cynnwys meysydd newydd a fyddai o fewn cwmpas y Bil, fel y cyhoeddwyd yn flaenorol gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Cyhoeddi'r craffu seneddol ar y Mesur maes o law.</p> <p>Mewn trafodaethau eraill, cododd y Pwyllgor ei bryderon ynghylch y rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus (PSTN) a'r effaith ar ddefnyddwyr yng Nghymru. Dywedodd y tîm eu bod yn parhau i gynnal trafodaethau â rhanddeiliaid, y diwydiant a Llywodraeth y DU ynghylch Symud i VoIP.</p>	
<p><b>12. Yr wybodaeth ddiweddaraf am Aildrwyddedu/Bil Cyfryngau Sianel 3 a 5</b></p> <p>Rhoddodd y tîm drosolwg o ddyletswyddau statudol Ofcom mewn perthynas â phroses aildrwyddedu Sianel 3 a 5 ar gyfer y cyfnod 2025-35 ac amlinellodd rôl yr Ysgrifennydd Gwladol.</p> <p>Trafododd y Pwyllgor oblygiadau aildrwyddedu ar ITV Cymru Wales yn benodol, a manteision cadw'r drwydded a'r rhwymedigaethau presennol. Nododd y Pwyllgor gyfraniad ITV Cymru Wales at y cyd-destun darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig o ran darparu lluosogrwydd drwy ei ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes, a'i raglenni Cymraeg.</p>	
<p><b>13. Trin cwsmeriaid agored i niwed yn deg - ymgynghoriad</b></p> <p>Rhoddodd y tîm yr wybodaeth ddiweddaraf am eu hymgyngoriad presennol sy'n ceisio diwygio'r canllaw gwirfoddol, 'Trin cwsmeriaid bregus yn deg: canllaw i ddarparwyr ffôn, band eang a theledu drwy dalu'. Bydd y diwygiadau'n nodi argymhellion arfer gorau i ddarparwyr a'r mesurau ymarferol y gallent eu mabwysiadu i drin cwsmeriaid sy'n agored i niwed yn ariannol yn deg.</p> <p>Dywedodd y tîm, er mai ond cyfran gymharol fach o gwsmeriaid band eang a symudol yn tueddu i gael ôl-ddyledion, gall dyled fod yn straen a allai gael effaith sylweddol ar iechyd meddwl unigolyn. Roedd y tîm yn ymwybodol y gallai mwy o bobl fod ar ei hôl hi gyda thalu eu biliau yn 2022 oherwydd bod prisiau manwerthu yn cynyddu a bod pwysau ehangach ar gostau byw.</p> <p>Trafododd Aelodau'r Pwyllgor a allai ddarparwyr wneud mwy o ran cynnig tariffau cymdeithasol a gwneud defnyddwyr yn fwy ymwybodol o ba gymorth oedd ar gael.</p>	
<p>14. Newid yn yr Hinsawdd</p>	

<p>Eglurodd y tîm fod eu gwaith yn canolbwyntio ar faterion amgylcheddol yn sectorau rheoleiddio Ofcom, yn hytrach na lleihau ôl troed amgylcheddol sefydliadol Ofcom ei hun, a oedd, yn eu barn nhw, yn brosiect ar wahân yn Ofcom.</p> <p>Amlinellodd y tîm eu canfyddiadau cychwynnol o ddadansoddi'r allyriadau sy'n cyfateb i garbon deuocsid (CO2e) o'r sectorau rydym yn eu rheoleiddio, ac yn gyffredinol, canfu eu bod yn cael effaith cymharol fach o ran allyriadau CO2e.</p> <p>Fodd bynnag, mae gan y sector cyfathrebiadau o bosib rôl hollbwysig o ran galluogi'r DU i leihau'r defnydd o ynni a rheoli adnoddau'n fwy effeithlon. Dywedodd y tîm fod hyn yn tanlinellu pwysigrwydd amcanion Ofcom - er enghraifft i gefnogi buddsoddiad mewn defnyddio rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits sy'n cystadlu â'i gilydd er mwyn rhoi dewis i ddefnyddwyr o wasanaethau cyflym o ansawdd uchel. A gallai Ofcom roi cyngor neu gyfeirio defnyddwyr at wneud dewisiadau cyfathrebu sy'n cyd-fynd â'u gwerthoedd amgylcheddol.</p> <p>Trafododd y tîm hefyd yr effaith y gallai hyrwyddo cystadleuaeth ei chael ar yr amgylchedd.</p>	
<p><b>15. Ymateb i Ymgynghoriadau:</b></p> <p><i>Mae'r canlynol yn gyhoeddiadau a ystyriwyd gan y Pwyllgor: -</i></p> <p><a href="#">Ei gwneud yn bosibl i rannu sbectrwm yn y band 6 GHz uchaf</a></p> <p><a href="#">Local TV Limited</a></p> <p><a href="#">Gwella cywirdeb data Adnabod y Galwr (CLI)</a></p>	
<p><b>Yr wybodaeth ddiweddaraf am gwynion defnyddwyr</b></p> <p>16. <b>NODWYD</b> y cynnwys.</p>	
<p><b>Ymgynghoriadau a Chyhoeddiadau i ddod</b></p> <p>17. <b>NODWYD</b> y cynnwys.</p>	
<p><b>Unrhyw faterion eraill ac eitemau ar gyfer agendâu'r dyfodol</b></p> <p><b>Unrhyw fater arall -</b></p> <p><b>Cadarnhawyd dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol fel a ganlyn:</b></p> <p>Dydd Iau 23 Mehefin 2022</p>	